Adroddiad ar

St Gerard's School Trust

Ffordd Ffriddoedd
Bangor
Gwynedd
LL57 2EL

Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant

yng Nghymru

## Ynglŷn â St Gerard's School Trust

| | |
|---|---|
| Enw’r darparwr | St Gerard's School Trust |
| Statws y perchennog | Ymddiriedolaeth elusennol |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Ysgol bob oed annibynnol |
| Darpariaeth breswyl? | Nac oes |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 101 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 95 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw’n berthnasol) | 23/05/2022 |
| Dyddiad dechrau’r arolygiad | 11/03/2025 |

Cyd-destun yr ysgol:

Mae St Gerard’s School Trust yn ysgol ddydd annibynnol ar gyfer disgyblion rhwng 4 ac 18 oed. Mae’r ysgol wedi’i lleoli yn nhref Bangor yng Ngogledd Cymru. Sefydlwyd yr ysgol ym 1917 gan y Chwiorydd Trugaredd, ac er mai sefydliad Catholig ydyw, mae gan yr ysgol draddodiad hir o groesawu disgyblion o bob ffydd a dim ffydd. Daeth yr ysgol yn ymddiriedolaeth elusennol leyg ym 1990.

Mae 101 o ddisgyblion ar y gofrestr ar hyn o bryd. Mae’r rhain yn cynnwys 17 yn yr ysgol iau, rhwng 4 ac 11 oed, ac 84 yn yr ysgol hŷn, y mae 6 ohonynt yn y chweched dosbarth.

Mae gan yr ysgol ddalgylch eang sy’n cwmpasu Penrhyn Llŷn, Eryri a siroedd Ynys Môn, Gwynedd, Conwy a Sir Ddinbych. Mae ychydig o ddisgyblion yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf neu i safon gyfwerth, ac mae’r ysgol yn cynnig Cymraeg hyd at Safon Uwch.

Gall disgyblion newydd ymuno â’r ysgol, yn dibynnu ar argaeledd y lleoedd. Ni chaiff disgyblion asesiad cyn-dechrau o’r ysgol iau i’r ysgol hŷn ar ddiwedd Blwyddyn 6. Mae disgyblion newydd sy’n dymuno ymuno â’r ysgol hŷn o Flwyddyn 7 ymlaen yn gwneud asesiadau mewn llythrennedd a rhifedd i helpu sicrhau bod yr ysgol yn gallu diwallu eu hanghenion.

Penodwyd y pennaeth ym mis Medi 2016 a chaiff ei gefnogi gan ddau ddirprwy bennaeth.

Roedd arolygiad craidd diwethaf yr ysgol ym mis Mai 2022.

## Crynodeb

Mae St Gerard’s School yn amgylchedd croesawgar a chynhwysol lle mae disgyblion, staff, a rhieni yn rhannu nod cyffredin i hyrwyddo dysgu, lles ac uchelgais. Mae’r ysgol yn meithrin perthnasoedd proffesiynol cryf, ac mae staff yn defnyddio cyfuniad effeithiol o ganmoliaeth, anogaeth a her i fagu hyder a meithrin ymgysylltiad disgyblion. Mae’r dull hwn yn arwain at ddeilliannau o ansawdd uchel, ac mae bron pob un o’r disgyblion yn ymfalchïo yn eu gwaith ac yn ymgysylltu’n frwd â gweithgareddau dysgu.

Mae athrawon yn St Gerard’s yn defnyddio holi effeithiol i hyrwyddo chwilfrydedd, meddwl beirniadol a dysgu’n annibynnol. Maent yn sicrhau bod gwersi yn drylwyr yn academaidd, yn cysylltu gwybodaeth flaenorol â deunydd newydd ac yn cadw cyflymdra’r dysgu yn uchel. Mae empathi a chymorth yn nodweddion allweddol, sy’n sicrhau nad oes yr un disgybl yn cael ei adael ar ôl. Mae gan yr ysgol ymagwedd gydlynus at gynhwysiant, gan weithio’n effeithiol i greu strategaethau dysgu unigoledig a gefnogir gan broffiliau disgyblion manwl. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion yn cael cymorth teilwredig o fewn amgylchedd meithringar.

Mae disgyblion yn St Gerard’s yn barod i groesawu her ac nid ydynt yn ofni gwneud camgymeriadau wrth iddynt fynd ar drywydd rhagoriaeth. Maent yn dangos chwilfrydedd a dyfalbarhad, gan rannu eu cyflawniadau yn falch â disgyblion eraill. Mae bron pob un o’r disgyblion yn gwerthfawrogi awyrgylch cefnogol yr ysgol, ac mae eu hymddygiad yn adlewyrchu ffocws yr ysgol ar garedigrwydd a pharch. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siaradwyr hyderus ac yn wrandawyr medrus, ac mae llawer o ddisgyblion hŷn yn dangos medrau ymresymu a chloriannu datblygedig.

Mae’r ysgol wedi gwneud cynnydd cyflym a sylweddol yn mynd i’r afael â’r argymhellion o’i harolygiad diwethaf. Mae strwythurau a phrosesau wedi’u mireinio, gan gynnwys y rhai sy’n gysylltiedig â sicrhau ansawdd, yn galluogi arweinwyr i gynllunio’n effeithiol ar gyfer gwella. Mae uwch arweinwyr yn cydweithio i ddarparu arweinyddiaeth strategol a gweithredol gref. Mae’r dull hwn yn cefnogi cynnydd cyflym ar gyfer disgyblion mewn meysydd academaidd a bugeiliol, fel ei gilydd.

Mae cydlynydd addysg bersonol, gymdeithasol ac iechyd (ABGI) a gyrfaoedd a benodwyd yn ddiweddar yn sicrhau bod y cwricwlwm ABGI yn cael ei gynllunio’n dda, yn hyrwyddo hunan-barch ac yn cwmpasu testunau fel perthnasoedd, iechyd a lles. Caiff y themâu hyn eu hatgyfnerthu trwy wasanaethau a’u hintegreiddio’n effeithiol yn y cwricwlwm ehangach. Mae arweiniad ar yrfaoedd i ddisgyblion hŷn yn canolbwyntio ar gymorth teilwredig ar gyfer cynllunio gyrfaoedd a llwybrau yn y dyfodol, gan gynnwys gwersi sy’n hyrwyddo llythrennedd ariannol a datblygu medrau cyflogadwyedd.

## Cydymffurfio â'r rheoliadau ar gyfer cofrestru

Caiff arolygiadau ysgolion annibynnol eu llywodraethu gan Ddeddf Addysg 2002 a rheoliadau cysylltiedig: Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2024. Mae'r rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ysgol annibynnol fodloni safon briodol yn y meysydd canlynol:

### Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol

Ar sail yr arolygiad hwn, nid oes tystiolaeth nad yw'r ysgol yn cydymffurfio â'r Safon hon

### Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion

Ar sail yr arolygiad hwn, nid oes tystiolaeth nad yw'r ysgol yn cydymffurfio â'r Safon hon

### Lles, iechyd a diogelwch disgyblion

Ar sail yr arolygiad hwn, nid oes tystiolaeth nad yw'r ysgol yn cydymffurfio â'r Safon hon

### Addasrwydd perchnogion a staff

Ar sail yr arolygiad hwn, nid oes tystiolaeth nad yw'r ysgol yn cydymffurfio â'r Safon hon

### Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion

Ar sail yr arolygiad hwn, nid oes tystiolaeth nad yw'r ysgol yn cydymffurfio â'r Safon hon

### Darparu gwybodaeth

Ar sail yr arolygiad hwn, nid oes tystiolaeth nad yw'r ysgol yn cydymffurfio â'r Safon hon

### Y modd yr eir i'r afael â chwynion

Ar sail yr arolygiad hwn, nid oes tystiolaeth nad yw'r ysgol yn cydymffurfio â'r Safon hon

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud un argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella, sef:

A1. Parhau i weithredu ac ymgorffori blaenoriaethau gwella presennol yr ysgol.

## Beth sy'n digwydd nesaf

Mae Estyn yn cynghori'r perchennog i ddiwygio'i gynllun datblygu presennol i ddangos pa gamau y mae'r ysgol yn bwriadu eu cymryd i ymateb i'r argymhellion. Hefyd, byddai'n ddoeth dosbarthu'r cynllun hwn, neu grynodeb ohono, i'r holl rieni / gofalwyr yn yr ysgol.

## Prif werthusiad

Mae St Gerard’s yn ysgol hapus a diogel lle mae disgyblion, rhieni a staff yn rhannu diben cyffredin sydd wedi’i seilio ar gynwysoldeb, uchelgais a disgwyliadau uchel. Mae pob aelod o’r gymuned ysgol glos yn mynd ati i hyrwyddo a chynnal amgylchedd tawel a meithringar sy’n galluogi disgyblion i ffynnu.

Ar draws yr ysgol, ceir uchelgais ar y cyd ar gyfer dysgu sy’n adeiladu ar berthnasoedd proffesiynol meithringar cryf. Mae staff yn adnabod disgyblion yn eithriadol o dda ac yn defnyddio cyfuniad medrus o ganmoliaeth, anogaeth, hiwmor a her i fagu hyder a meithrin ymgysylltiad. Mae bron pob un o’r disgyblion yn ymfalchïo yn eu gwaith, gan fod yn barod i ymgysylltu â gweithgareddau a dysgu. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cynhyrchu gwaith o ansawdd uchel.

Mae holi effeithiol yn nodwedd gyson o addysgu ar draws yr ysgol. Mae’r rhan fwyaf o athrawon yn defnyddio cwestiynau agored a threiddgar i ddarparu her, annog meddwl beirniadol a hyrwyddo dysgu’n annibynnol. Mae trylwyredd academaidd clir mewn gwersi ar draws yr ysgol, ac mae llawer o wersi’n darparu cyfleoedd i ddisgyblion fod yn chwilfrydig ac i archwilio. Mae athrawon yn atgyfnerthu dysgu blaenorol yn gyson, gan amlygu cysylltiadau rhwng testunau a chyflwyno medrau i gynorthwyo ag adalw gwybodaeth. Mae gan bron bob un o’r athrawon ddisgwyliadau uchel ac maent yn defnyddio adnoddau strwythuredig i gynnal cyflymdra dysgu cryf. Mae llawer o athrawon yn cyfuno’r cyflymdra cyflym hwn yn fedrus gyda chymorth empathig sy’n sicrhau nad oes yr un disgybl yn cael ei adael ar ôl.

Mae gan yr ysgol ymagwedd hynod gydlynus, wedi’i gwreiddio’n dda, at gynhwysiant, sy’n cael ei goruchwylio gan dîm o staff angerddol a hyfforddedig, wedi’i arwain gan y cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol (CydADY). Mae bron pob un o’r staff yn yr ysgol yn deall gwahaniaethau dysgu disgyblion ac yn empatheiddio â nhw. Ar draws yr ysgol, caiff staff ac arweinwyr eglurder calonogol ynghylch deddfwriaeth anghenion dysgu ychwanegol a rôl yr ysgol mewn cefnogi disgyblion i elwa ar eu haddysg. Mae ‘proffiliau disgyblion’ buddiol yn sail i waith cydlynus staff i gefnogi disgyblion. Mae’r proffiliau hyn yn cynnwys strategaethau i staff eu defnyddio yn eu harfer addysgu reolaidd, yn ogystal â ffyrdd y gall disgyblion gefnogi eu hunain. Er enghraifft, defnyddio gorddalennau neu brennau mesur i’w cynorthwyo wrth ddarllen. Mae arweinwyr yn gwerthuso effeithiolrwydd y ddarpariaeth hon trwy brosesau sicrhau ansawdd trylwyr, gan gynnwys craffu ar waith, teithiau dysgu, ac adroddiadau i rieni. Mae cymorth yr ysgol ar gyfer disgyblion niwrowahanol a’r rhai â gwahaniaethau dysgu yn dangos ei hethos meithringar. Caiff hyn ei ategu gan berthnasoedd proffesiynol cryf a ffocws cyson ar anghenion unigol disgyblion. Mae hyn yn gryfder nodedig yn yr ysgol.

Mae’r ffaith fod disgyblion yn croesawu her yn nodwedd nodedig ar draws yr ysgol. Nid ydynt yn ofni gwneud camgymeriadau ar y ffordd at ragoriaeth. Mae bron pob un o’r disgyblion yn dangos parodrwydd i ‘ddechrau arni’, i geisio datrys problemau neu roi atebion, hyd yn oed os ydynt yn ansicr am eu cywirdeb. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos chwilfrydedd gweithredol, yn gofyn cwestiynau treiddgar ac yn dilyn eu diddordebau â dycnwch. O ganlyniad, mae bron pob un o’r disgyblion yn falch iawn o’u gwaith a’i ddeilliannau ac yn rhannu’r rhain yn frwdfrydig ag ymwelwyr.

Mae disgyblion yn cydnabod, ac yn llafar o ran eu gwerthfawrogiad o amgylchedd meithringar yr ysgol, a sut mae staff yn gwneud dysgu yn ddiddorol ac yn hwyl, fel ei gilydd. Mae bron pob un o’r disgyblion yn deall ac yn esbonio pwysigrwydd bod yn garedig i bobl eraill ac yn gwerthfawrogi cael eu cydnabod trwy wobr ‘dinesydd yr wythnos’ yn yr ysgol gynradd, er enghraifft. Ymhellach, mae disgyblion cynradd hŷn yn deall ac yn esbonio pam y gallai cyfryngau cymdeithasol fod yn amhriodol, gan ddangos ymwybyddiaeth glir o faterion diogelwch ar-lein. O ganlyniad, mae bron pob un o’r disgyblion yn teimlo’n ddiogel yn yr ysgol, yn gwerthfawrogi caredigrwydd arferol staff a’u cyfoedion, ac mae ganddynt ymdeimlad cryf o gynhwysiant a pherthyn yn St Gerard’s.

Mae bron pob un o’r disgyblion yn cyfathrebu’n glir wrth siarad, gan gynnwys y rhai y mae hyn yn anoddach iddynt. Maent yn meddwl, yn dyfalbarhau ac yn dod o hyd i’r geiriau i gyfleu eu meddyliau a’u hystyr. Mae llawer ohonynt yn wrandawyr hynod fedrus, gan roi sylw parchus a gweithredol i’w cyfoedion, staff, ac ymwelwyr, ac ymateb â dealltwriaeth ac ystyriaeth. Mae disgyblion hŷn yn hynod fedrus yn crynhoi gwybodaeth ac yn saernïo dadleuon ar lafar. Caiff y medrau cyfathrebu hynod ddatblygedig hyn eu defnyddio gan aelodau o’r Cyngor Ysgol yn eu rolau fel eiriolwyr effeithiol dros eu cyfoedion. O ganlyniad, caiff safbwyntiau disgyblion ddylanwad cadarnhaol ar waith yr ysgol yn gyson.

Mae ystafelloedd dosbarth, mannau cymunol ac ardaloedd arbenigol yn ofodau golau, deniadol sy’n meithrin amgylchedd ac awyrgylch dysgu pwrpasol. Mae’r defnydd o ardaloedd cymunol i ddathlu ac arddangos cyflawniadau creadigol disgyblion yn gryfder nodedig yn yr ysgol.

## Cynnydd wrth fynd i’r afael ag argymhellion o arolygiad blaenorol

### A1. Cryfhau’r ddarpariaeth ar gyfer ABGI a gyrfaoedd ar draws yr ysgol

Ers yr arolygiad diwethaf, mae’r ysgol wedi gwneud cynnydd cyflym i gryfhau’r maes arfer hwn. Mae’r cydlynydd a benodwyd yn ddiweddar yn darparu goruchwyliaeth effeithiol o ABGI ac addysg gyrfaoedd. O ganlyniad, caiff darpariaeth ABGI ei datblygu’n glir ac yn raddol ar draws yr ysgol, a cheir rhaglen gyrfaoedd effeithiol ar gyfer disgyblion hŷn.

Mae’r cwricwlwm ABGI wedi’i gynllunio’n ofalus i ganiatáu ar gyfer dilyniant, gan adeiladu’n effeithiol ar ddysgu blaenorol yn ogystal â meithrin hunan-barch a hyder ymhlith disgyblion. Mae themâu’r cwricwlwm fel perthnasoedd, byw yn y byd ehangach, ac iechyd a lles, wedi’u cydblethu ac yn cael eu cyflwyno i adlewyrchu gwerthoedd yr ysgol. Ceir cyfleoedd i archwilio themâu ABGI y tu allan i wersi, er enghraifft trwy wasanaethau wedi’u harwain gan arweinwyr a disgyblion ar destunau sy’n cynnwys diogelwch ar-lein, uniondeb a goddefgarwch. O ganlyniad, mae disgyblion yn dangos dealltwriaeth glir o’r rhain a materion pwysig eraill.

Mewn mannau eraill yn y cwricwlwm, caiff materion ABGI eu hintegreiddio a’u harchwilio’n effeithiol, gan ddarparu cyd-destun perthnasol ar gyfer disgyblion. Er enghraifft, mewn hanes ym Mlwyddyn 12, caiff cysylltiadau eu creu â Diwrnod Rhyngwladol y Menywod wrth ystyried a oedd Genghis Khan yn ffeminydd, ac mewn drama yn y sector cynradd, mae disgyblion yn archwilio thema empathi yn ‘Peter Pan’. Mae’r rhaglen addysg rhyw a pherthnasoedd sefydledig yn darparu gwersi ystyrlon ar gyfer disgyblion sy’n briodol i’w hoedran. Ceir rhaglen effeithiol o siaradwyr gwadd, gan gynnwys nyrs ysgol sy’n cyflwyno sesiynau ar iechyd rhywiol, y glasoed a gorbryder.

Mae’r ysgol wedi cyflwyno mesurau gwerthfawr i gryfhau arweiniad gyrfaoedd ar draws yr ysgol hŷn. Mae dyhead ac uchelgais yn nodweddion nodweddiadol o’r agwedd hon ar waith yr ysgol. Mae darpariaeth yn cynnwys, er enghraifft, gwersi ar fedrau llythrennedd ariannol a chyflogadwyedd ar gyfer disgyblion cyfnod allweddol 3, ac ystod eang o siaradwyr allanol buddiol. Mae cyfleoedd allgyrsiol fel y ‘Clwb Busnes’ yn cefnogi datblygiad medrau disgyblion trwy heriau ystyrlon mewn cyd-destunau dilys a bywyd go iawn, er enghraifft cynhyrchu podlediad radio. Yng nghyfnod allweddol 4, mae defnyddio pecynnau perchenogol i greu CVau ac archwilio llwybrau yn y dyfodol yn hyrwyddo ymdeimlad o berchnogaeth ac annibyniaeth wrth ystyried y camau nesaf. Yn y chweched dosbarth, mae disgyblion yn elwa ar gael arweiniad teilwredig ac unigol gan aelodau o’r tîm arweinyddiaeth.

## A2. Gwella monitro i nodi a mynd i'r afael ag amrywioldeb mewn darpariaeth

Ers yr arolygiad diwethaf, mae’r ysgol wedi gwneud cynnydd sylweddol yn erbyn yr argymhelliad hwn. Gwnaed llawer o newidiadau a ystyriwyd yn ofalus i strwythurau a phrosesau’r ysgol, ynghyd â mireinio a datblygu arfer bresennol. O ganlyniad, mae uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn meddu ar ddealltwriaeth glir a chywir o ansawdd y ddarpariaeth ar draws yr ysgol erbyn hyn, a gallant gynllunio’n effeithiol ar gyfer mwy o gysondeb a gwelliant.

Mae uwch arweinwyr yn ffurfio tîm hynod effeithiol a chydweithredol sydd â chydbwysedd amcanus o ddyletswyddau a chyfrifoldebau. Mae’r ysgol yn elwa ar arweinyddiaeth strategol a gweithredol gref ac mae arweinwyr yn llywio unrhyw heriau sy’n codi gyda medrusrwydd, ystwythder ac egni.

Mae’r ysgol wedi mireinio’i strwythurau rheolaeth llinell i ganiatáu ar gyfer cyfathrebu mwy effeithiol, rheolaidd ac agored. Mae ansawdd a gwelliant y ddarpariaeth yn flaenoriaeth gyson mewn cyfarfodydd staff ar draws yr ysgol. O ganlyniad i gydbwysedd amcanus o atebolrwydd ac ymreolaeth ar bob lefel, mae staff yn teimlo’n hynod ymgysylltiedig â’r ysgol ac wedi eu grymuso i gael effaith glir ar wella effeithiolrwydd yr addysgu.

Mae prosesau sicrhau ansawdd yn glir ac wedi’u sefydlu’n dda. Mae arweinwyr ar bob lefel yn ymgysylltu â sesiynau craffu ar waith, teithiau dysgu ac arfarnu, gan ddefnyddio deilliannau’r gweithgareddau hyn yn effeithiol i lywio gwaith gwella. Mae arweinwyr canol ac uwch arweinwyr yn gweithredu fel ffrindiau beirniadol effeithiol i’w timau, ac yn cael mewnwelediad clir â thystiolaeth dda i’w gwaith nhw, a gwaith yr ysgol gyfan. Defnyddir dysgu proffesiynol yn effeithiol i gefnogi gwaith gwella parhaus.

Mae prosesau ar gyfer olrhain a monitro cyrhaeddiad wedi’u datblygu’n dda ac yn hynod effeithiol. Mae sicrhau tarddiad a chywirdeb data asesu yn rhan eglur ac annatod o arfer. O ganlyniad, mae dadansoddiad arweinwyr o gynnydd yn gadarn ac wedi’i gysylltu’n glir ag asesiadau dibynadwy athrawon. Mae parhad cryf o asesu ac olrhain rhwng sectorau cynradd ac uwchradd yn gryfder mewn darpariaeth ac yn sicrhau bod y cyfnod pontio yn ddi-dor. O ganlyniad, caiff cynnydd cyflym disgyblion ei gynnal mewn cyd-destunau academaidd a bugeiliol, fel ei gilydd.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o’r holiadur i rieni / gofalwyr a’r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a’r staff cymorth trwy eu hymatebion i’w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a’i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â’r pennaeth, y llywodraethwyr / perchnogion, arweinwyr ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a’r pwyllgor eco
- yn ymweld â gwersi ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi dysgu’r disgyblion
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso’r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella’r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau’r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a’r corff llywodraethol (lle bo’n briodol), gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi’r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau’r arolygiad ochr yn ochr â’r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae’r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *‘y rhan fwyaf o ddisgyblion…’* neu *‘ychydig iawn o ddisgyblion…’*. Rydym yn defnyddio’r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag adran 163 Deddf Addysg 2002. Prif ddiben arolygu o dan yr adran hon yw adrodd ar gydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2024. Mewn ysgolion sy'n darparu addysg feithrin nas cynhelir, mae'r adroddiad hwn hefyd yn bodloni gofynion Atodlen 26 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: http://www.estyn.llyw.cymru/

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 19/05/2025